# Asesiad Strwythuredig 2024 – Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

Blwyddyn archwilio: 2024

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2024

Cyfeirnod y ddogfen: 4528A2024

Paratowyd y ddogfen hon yn rhan o waith a berfformiwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Am yr adroddiad hwn 4

Canfyddiadau allweddol 5

Argymhellion 6

Adroddiad manwl

Dull cynllunio corfforaethol 7

Systemau sicrwydd corfforaethol 10

Tryloywder, effeithiolrwydd a chydlyniad y Bwrdd 15

Dull corfforaethol o reoli adnoddau ariannol 21

Atodiadau

Atodiad 1–Dulliau archwilio 26

Atodiad 2 – Y cynnydd a wnaed o'i gymharu ag argymhellion y flwyddyn flaenorol 29

Atodiad 3 – Ymateb y rheolwyr i argymhellion archwilio 32

Atodiad 4 – Diweddariad statws Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ar ddysg allweddol o 2023–24 34

# Adroddiad cryno

## Am yr adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau o waith asesu strwythuredig 2024 yr Archwilydd Cyffredinol yn Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (yr Ymddiriedolaeth). Mae ein gwaith asesu strwythuredig wedi ei gynllunio i helpu i gyflawni gofyniad statudol yr Archwilydd Cyffredinol o dan adran 61 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i fod yn fodlon bod cyrff y GIG wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau eu bod yn defnyddio adnoddau yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.

2 Cynhaliwyd ein gwaith asesu strwythuredig 2024 ar adeg pan oedd cyrff y GIG yn parhau i ymateb i set ehangach o heriau sy'n gysylltiedig â'r argyfwng costau byw, yr argyfwng hinsawdd, pwysau chwyddiant ar gyllid cyhoeddus, prinder gweithlu, ac ystad sy'n heneiddio. Hefyd, mae cyrff y GIG yn dal i ymdrin ag etifeddiaeth pandemig COVID-19. Felly, yn fwy nag erioed, mae angen i gyrff y GIG a'u Byrddau fod â threfniadau llywodraethu corfforaethol cadarn sy'n gallu rhoi sicrwydd iddynt eu hunain, y cyhoedd, a rhanddeiliaid allweddol bod y camau angenrheidiol yn cael eu cymryd i ddarparu gwasanaethau diogel ac ymatebol o ansawdd uchel, a bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n ddoeth.

3 Bu pwyslais allweddol y gwaith ar drefniadau corfforaethol yr Ymddiriedolaeth, er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol, ac yn ddarbodus, gyda phwyslais penodol ar yr hyn a ganlyn:

- dull cynllunio corfforaethol;
- systemau sicrwydd corfforaethol;
- tryloywder, cydlyniant, ac effeithiolrwydd y bwrdd; a
- dull corfforaethol o reoli ariannol.

Nid ydym wedi adolygu trefniadau gweithredol yr Ymddiriedolaeth yn rhan o'r gwaith hwn.

4 Mae ein gwaith wedi ei lywio gan ein gwaith asesu strwythuredig blaenorol, a ddatblygwyd ac a fireiniwyd dros nifer o flynyddoedd. Mae hefyd wedi ei lywio gan yr hyn a ganlyn:

- Rheolau Sefydlog enghreifftiol, Cadw a Dirprwyo Pwerau;
- Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog enghreifftiol;
- cylchlythyrau a chanllawiau iechyd perthnasol Llywodraeth Cymru;
- Canllaw Llywodraethu Da ar gyfer Byrddau'r GIG yng Nghymru (Ail Argraffiad);
- canllawiau arferion da perthnasol eraill.

Cynhaliwyd ein gwaith rhwng mis Awst a mis Medi 2024. Crynhoir y dulliau a ddefnyddiwyd gennym i gyflawni ein gwaith yn **Atodiad 1**. Cynhaliwyd ein gwaith yn unol â'r safonau archwilio a bennwyd gan y Sefydliad Rhyngwladol Sefydliadau Archwilio Goruchaf.

5 Rydym hefyd yn darparu diweddariad yn yr adroddiad hwn ar gynnydd yr Ymddiriedolaeth wrth fynd i'r afael ag argymhellion sydd angen sylw a nodwyd mewn adroddiadau asesu strwythuredig blaenorol yn **Atodiad 2**.

## Canfyddiadau allweddol

6 Ar y cyfan, canfuom fod **trefniadau corfforaethol yr Ymddiriedolaeth yn cefnogi llywodraethu da a defnydd effeithlon, effeithiol, a darbodus o adnoddau yn gyffredinol. Yn gadarnhaol, mae'r Ymddiriedolaeth yn trawsnewid ei gwasanaethau clinigol i reoli pwysau a galw gweithredol yn well ac mae'n gwneud cynnydd da o ran gwella systemau sicrwydd allweddol i gryfhau pwyslais y Bwrdd ar risgiau strategol. Er bod ei pherfformiad ariannol yn dda, mae angen i'r Ymddiriedolaeth symud oddi wrth ei dibyniaeth ar arbedion afreolaidd i gynnal cadernid sefydliadol.**

- Gwnaethom ystyried a oes gan yr Ymddiriedolaeth ddull corfforaethol cadarn o lunio strategaethau a chynlluniau corfforaethol ac o oruchwylio'r broses o'u cyflawni. **Canfuom fod gan yr Ymddiriedolaeth ddull cadarn o hyd o lunio strategaethau a chynlluniau corfforaethol yn gyffredinol, gan gynnwys datblygu Rhaglen Trawsnewid Model Clinigol uchelgeisiol. Fodd bynnag, mae cyfleoedd o hyd i gryfhau goruchwyliaeth y Bwrdd o'r broses o ddatblygu a chyflawni Cynllun Tymor Canolig Integredig yr Ymddiriedolaeth.**
- Gwnaethom ystyried a oes gan yr Ymddiriedolaeth ddull corfforaethol cadarn ar gyfer rheoli risgiau, perfformiad, ac ansawdd a diogelwch gwasanaethau. **Canfuom fod yr Ymddiriedolaeth yn parhau i gryfhau ei systemau sicrwydd corfforaethol a'i bod yn cymryd camau cadarnhaol i wella ei Fframwaith Sicrwydd Bwrdd. Fodd bynnag, mae cyfleoedd o hyd i gryfhau fframwaith yr Ymddiriedolaeth ar gyfer rheoli perfformiad sefydliadol a goruchwylio ansawdd a diogelwch gwasanaethau.**
- Gwnaethom ystyried a yw Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn cynnal ei fusnes yn briodol, yn effeithiol ac yn dryloyw. **Canfuom fod newidiadau diweddar i aelodaeth y Bwrdd wedi eu rheoli'n dda a bod y Bwrdd wedi parhau i gynnal ei fusnes yn effeithiol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i ddangos ymrwymiad cryf i dryloywder cyhoeddus a gwelliant parhaus. Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i fod yn ymrwymedig wrando ar gleifion, staff a rhanddeiliaid eraill; fodd bynnag, mae cyfleoedd o hyd i wella'r trefniadau hyn ymhellach.**
- Gwnaethom ystyried a oes gan yr Ymddiriedolaeth ddull corfforaethol cadarn o reoli ei hadnoddau ariannol. **Canfuom fod yr Ymddiriedolaeth yn parhau i gynnal perfformiad ariannol cryf a gefnogir gan waith cynllunio ariannol effeithiol. Fodd bynnag, mae angen i'r Ymddiriedolaeth wella ei threfniadau ar gyfer nodi ac adrodd cynlluniau arbed rheolaidd.**

# Argymhellion

7 Manylir ar yr argymhellion sy'n deillio o'n gwaith yn **Arddangosyn 1**. Crynhoir ymateb yr Ymddiriedolaeth i'n hargymhellion yn **Atodiad 3**.

**Arddangosyn 1: Argymhellion 2024**

| **Argymhellion** | |
|---|---|
| A1 | Dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod aelodau y Bwrdd yn cael cyfle i drafod a chraffu ar fersiwn ddrafft o'r Cynllun Tymor Canolig Integredig, naill ai mewn cyfarfod ffurfiol neu drwy ei chylchredeg y tu allan i gyfarfodydd, cyn iddi gael ei chyflwyno i'w chadarnhau a'i chymeradwyo'n ffurfiol. **(Paragraff 14)** |
| A2 | Dylai'r Ymddiriedolaeth ddiweddaru ei Fframwaith Rheoli Ansawdd a Pherfformiad i adlewyrchu newidiadau diweddar mewn swyddogaethau mewnol allweddol. **(Paragraff 35)** |
| A3 | Dylai'r Ymddiriedolaeth gymhwyso i straeon staff y broses sydd ganddi ar waith ar gyfer straeon cleifion er mwyn rhoi eglurder ar sut mae'r Ymddiriedolaeth wedi cofnodi'r stori, sut y defnyddiwyd y stori at ddibenion sicrwydd neu welliant, a sut mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymateb i'r unigolyn a rannodd ei brofiad. **(Paragraff 71)** |

# Adroddiad manwl

## Dull cynllunio corfforaethol

8 Gwnaethom ystyried a oes gan yr Ymddiriedolaeth ddull corfforaethol cadarn o lunio strategaethau a chynlluniau corfforaethol ac o oruchwylio'r broses o'u cyflawni.

9 Canfuom **fod gan yr Ymddiriedolaeth ddull cadarn o hyd o lunio strategaethau a chynlluniau corfforaethol yn gyffredinol, gan gynnwys datblygu Rhaglen Trawsnewid Model Clinigol uchelgeisiol. Fodd bynnag, mae cyfleoedd o hyd i gryfhau goruchwyliaeth y Bwrdd o'r broses o ddatblygu a chyflawni Cynllun Tymor Canolig Integredig yr Ymddiriedolaeth.**

### Dull corfforaethol o lunio strategaethau a chynlluniau

10 Gwnaethom ystyried a oes gan yr Ymddiriedolaeth ddull corfforaethol cadarn o lunio, goruchwylio, a chraffu ar y broses o ddatblygu strategaethau a chynlluniau corfforaethol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:

- gweledigaeth glir a gymeradwywyd gan y Bwrdd, amcanion priodol a strategaeth hirdymor ar waith sy'n canolbwyntio ar y dyfodol, sydd wedi eu gwreiddio yn iechyd y boblogaeth, ac wedi eu llywio gan ddadansoddiad manwl a chynhwysfawr o anghenion, cyfleoedd, heriau a risgiau;
- strategaeth clinigol hirdymor priodol a gymeradwywyd gan y Bwrdd sy'n tanategu'r strategaeth hirdymor;
- trefniadau corfforaethol priodol ac effeithiol ar waith ar gyfer datblygu a llunio'r Cynllun Tymor Canolig Integredig, a chynlluniau corfforaethol eraill;
- y Bwrdd yn craffu'n briodol ar y Cynllun Tymor Canolig Integredig a chynlluniau corfforaethol eraill cyn eu cymeradwyo.

11 Canfuom yn gyffredinol fod **gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau da ar gyfer llunio strategaethau a chynlluniau corfforaethol a'i bod yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu Rhaglen Trawsnewid Model Clinigol newydd i drawsnewid y broses o ddarparu gwasanaethau. Er bod yr Ymddiriedolaeth wedi gallu llunio Cynllun Tymor Canolig Integredig cymeradwy ar gyfer 2024–27, dylai'r Bwrdd fod wedi chwarae mwy o ran yn y broses o graffu ar y fersiwn ddrafft cyn cymeradwyo'r cynllun terfynol.**

12 Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i ddilyn gweledigaeth ac amcanion ei fframwaith strategol hirdymor (y Fframwaith)—'Cyflawni Rhagoriaeth, Ein Gweledigaeth ar gyfer 2030'. Mae'r strategaeth sefydliadol yn amlinellu gweledigaeth yr Ymddiriedolaeth o ran newid model gwasanaeth traddodiadol yr Ymddiriedolaeth er mwyn rheoli'r galw yn wahanol. Mae hyn yn cynnwys cynyddu'r cyngor o bell a'r driniaeth a ddarperir yn ogystal â mynediad at lwybrau sy'n galluogi cleifion i aros yn eu cymunedau yn hytrach na chael eu cludo i'r ysbyty. Mae'r Fframwaith hefyd yn nodi uchelgeisiau yr Ymddiriedolaeth ar gyfer ei staff a sut y bydd yn mynd ar drywydd arloesedd, gwerth ac ansawdd.

13 Yn 2023, cynhaliodd yr Ymddiriedolaeth asesiad lefel uchel o’r cynnydd cyfredol o’i gymharu â’r Fframwaith. Gan adeiladu ar hyn, yn ystod mis Mai a mis Mehefin 2024, cynhaliodd yr Ymddiriedolaeth weithdai i archwilio sut y gallai gyflymu cynlluniau i gyflawni ei weledigaeth drwy newidiadau i fodel clinigol y sefydliad. O ganlyniad, yn hytrach na’r strwythurau gweithredol presennol, sef tair darpariaeth gwasanaeth ar wahân[1], mae’r Ymddiriedolaeth yn cynnig symud i un model gofal cwbl integredig[2] â’r nod o leihau arosiadau ac achosion sy’n deillio o niwed y gellir ei osgoi. Mae’r Bwrdd wedi cael yr wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad y gwaith hwn drwy Ddiwrnodau Datblygu y Bwrdd. Mae’r gweithgaredd hwn wedi ei alw’n Rhaglen Trawsnewid Model Clinigol yr Ymddiriedolaeth, ac fe’i cefnogir gan gynlluniau cyflawni blynyddol.

14 Cymeradwyodd y Bwrdd Gynllun Tymor Canolig Integredig yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2024–27 ar 25 Mawrth 2024 ac fe’i cyflwynwyd i Lywodraeth Cymru o fewn yr amserlen ofynnol. Mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo Cynllun Tymor Canolig Integredig 2024–27. Dangosodd yr Ymddiriedolaeth ymrwymiad cryf i ymgysylltu mewnol ac allanol er mwyn cefnogi datblygiad ei Chynllun Tymor Canolig Integredig 2024–27. Roedd hyn yn cynnwys ystyried straeon cleifion, cynnal arolygon staff, ac ymgysylltu â’r Cyd-bwyllgor Comisiynu newydd a ddisodlodd y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys yn 2024. Cafodd y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad a’r Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am y broses o ddatblygu’r Cynllun Tymor Canolig Integredig, yn ogystal â derbyn agweddau ar y Cynllun Tymor Canolig Integredig drwy ddiwrnodau datblygu y bwrdd. Fodd bynnag, er gwaethaf papur yn nodi y byddai’r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad a’r Bwrdd yn cael copïau drafft o’r Cynllun Tymor Canolig Integredig yn ffurfiol ym mis Ionawr 2024, ni chafodd y naill na’r llall gyfle i adolygu fersiwn lawn o’r Cynllun Tymor Canolig Integredig tan fis Mawrth 2024 pryd y cafodd ei gymeradwyo’n ffurfiol i’w gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Byddai rhannu fersiwn ddrafft, naill ai mewn cyfarfod ffurfiol neu drwy ei chylchredeg i aelodau gyda digon o amser cyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno yn rhoi mwy o gyfleoedd i’r bwrdd drafod a chynnig sylwadau ar y cynllun **(Argymhelliad 1)**.

15 Ar 30 Mehefin 2024, daeth yr Ymddiriedolaeth yn sefydliad rhestredig o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015. Yn unol â’r Ddeddf, bydd yn ofynnol i’r Ymddiriedolaeth bennu amcanion llesiant yn unol â’r egwyddor datblygu cynaliadwy, a bydd angen ei set gyntaf o amcanion erbyn mis Ebrill 2025. Ar adeg ysgrifennu’r adroddiad hwn, roedd yr Ymddiriedolaeth yn sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen ar draws y sefydliad i gynllunio a goruchwylio datblygiad yr amcanion llesiant a’r gwaith cysylltiedig o dan y gofynion newydd.

[1] Gwasanaethau Meddygol Brys, Gwasanaeth 111 Cenedlaethol, Gwasanaeth Gofal Ambiwlans.

[2] Bydd cleifion sydd ag anghenion iechyd argyfwng, brys neu arferol yn gallu defnyddio gwasanaethau drwy ddulliau gwahanol, cael eu hasesu, gan gynnwys (yn ôl yr angen) drwy sgrinio clinigol cyflym a chael yr ymateb a’r canlyniad cywir ar gyfer eu hangen penodol.

16 Mae'r Bwrdd hefyd wedi cymeradwyo Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024–28 (fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) a Chynllun Digidol 2024–29 ym mis Mawrth 2024 a mis Gorffennaf 2024 yn y drefn honno. Gwnaeth ein hadroddiad asesu strwythuredig 2022 sylwadau ar y diffyg eglurder ynghylch sut y byddai'r Strategaeth Ddigidol flaenorol yn cael ei hariannu gan nad oedd yn cynnwys gwybodaeth glir am gostau. Gwnaethom nodi hefyd ei bod yn anodd i aelodau y Bwrdd fonitro'r broses o gyflawni'r strategaeth yn glir. Cadarnhaol yw nodi bod y Cynllun Digidol newydd yn llawer cliriach ynghylch gofynion adnoddau a'r risgiau o fethu â buddsoddi, gan gynnwys effaith ar wendidau seiberddiogelwch ac aneffeithlonrwydd gweithredol. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi nodi dangosyddion perfformiad allweddol newydd er mwyn galluogi'r cynllun cyflawni i gael ei fonitro'n gadarn.

17 Mae Cynllun Tymor Canolig Integredig 2024–27, Cynllun Cydraddoldeb Strategol a Chynllun Digidol ar gael i'r cyhoedd ar wefan yr Ymddiriedolaeth (gweler **Atodiad 2, 2023, Argymhelliad 2**).

## Dull corfforaethol o oruchwylio'r broses o gyflawni strategaethau a chynlluniau

18 Gwnaethom ystyried a oes gan yr Ymddiriedolaeth ddull corfforaethol cadarn o oruchwylio ac o graffu ar y broses o weithredu a chyflawni cynlluniau corfforaethol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:

- cynlluniau corfforaethol, gan gynnwys y Cynllun Tymor Canolig Integredig, yn cynnwys blaenoriaethau/amcanion strategol clir a cherrig milltir penodol, mesuradwy, cyraeddadwy, realistig ac amser-gyfyngedig[3], targedau a chanlyniadau sy'n cynorthwyo gwaith monitro ac adrodd;
- y Bwrdd yn monitro gweithrediad a chyflawniad cynlluniau corfforaethol yn briodol, gan gynnwys y Cynllun Tymor Canolig Integredig.

19 Canfuom fod **Cynllun Tymor Canolig Integredig 2024–27 yr Ymddiriedolaeth yn cynnwys amcanion clir a cherrig milltir sy'n seiliedig ar ganlyniadau a bod mwy o bwyslais ar effaith cyflawni'r cynllun mewn adroddiadau cynnydd. Fodd bynnag, bydd angen i'r Ymddiriedolaeth gyfathrebu'n glir unrhyw newidiadau o ran cyflawni ei Chynllun Tymor Canolig Integredig 2024–27 o ganlyniad i'r Rhaglen Trawsnewid Model Clinigol.**

20 Mae gan Gynllun Tymor Canolig Integredig 2024–27, sy'n cyd-fynd yn briodol â strategaeth hirdymor a blaenoriaethau strategol yr Ymddiriedolaeth, bwyslais cryf ar gyflawni, ac mae pob adran yn nodi amcanion clir a disgrifiad o sut y bydd 'da' yn edrych yn 2027. Mae pob amcan yn rhestru'r cerrig milltir ar sail canlyniadau y

[3] Penodol, mesuradwy, cyraeddadwy, realistig ac amser-gyfyngedig—defnyddir yr acronym SMART ar gyfer hyn yn y Saesneg.

mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu eu cyflawni ym mhob un o dair blynedd y cynllun (gweler **Atodiad 2, 2023, Argymhelliad 3**).

21 Mae'r Bwrdd Trawsnewid Strategol yn parhau i oruchwylio darpariaeth gyffredinol Cynllun Tymor Canolig Integredig 2024–27. Fodd bynnag, mae'r strwythurau cyflawni ategol wedi eu hadnewyddu ers i Gynllun Tymor Canolig Integredig 2024–27 gael ei gymeradwyo, er mwyn ymgorffori'r Rhaglen Trawsnewid Model Clinigol. Mae camau gweithredu o dan y Rhaglen Trawsnewid Model Clinigol (nad adlewyrchir yng Nghynllun Tymor Canolig Integredig 2024–27 oherwydd bod y rhaglen wedi ei datblygu ar ôl y Cynllun Tymor Canolig Integredig) yn cael eu monitro gan y Bwrdd Trawsnewid Model Clinigol, ac mae'r Grŵp Cynllunio a Datblygu Strategol Integredig yn goruchwylio'r camau gweithredu yng Nghynllun Tymor Canolig Integredig 2024–27 nad ydynt yn cyd-fynd â'r Rhaglen Trawsnewid Model Clinigol.

22 Mae'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad a'r Bwrdd yn parhau i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd Cynllun Tymor Canolig Integredig 2024–27 fesul chwarter. Ar adeg ysgrifennu'r asesiad hwn, roedd yr Ymddiriedolaeth yn adrodd nad oedd cyflwyno'r Rhaglen Trawsnewid Model Clinigol wedi arwain eto at yr angen i oedi unrhyw un o'i hymrwymiadau Cynllun Tymor Canolig Integredig 2024–27 i ryddhau capasiti. Bydd unrhyw newidiadau posibl yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad yn ystod y flwyddyn.

23 Awgrymodd ein hadroddiad asesu strwythuredig 2023 y dylai'r Bwrdd Trawsnewid Strategol ystyried gwybodaeth am berfformiad hefyd er mwyn deall effaith camau gweithredu Cynllun Tymor Canolig Integredig yn well. Mae adroddiad cynnydd Cynllun Tymor Canolig Integredig 2024–27 i'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad ym mis Medi 2024 yn cynnwys adran ar ganlyniadau ar gyfer rhai ffrydiau gwaith, sy'n darparu gwybodaeth o'i chymharu â metrigau a'r wybodaeth am 'sut y bydd 'da' yn edrych yn 2027' a gynhwysir yn y cynllun. Roedd rhai metrigau yn dal i gael eu datblygu ym mis Medi 2024. Pan fo metrigau wedi eu datblygu, roedd yr adroddiad cynnydd yn cynnwys sgôr Coch, Oren, Gwyrdd i nodi a oedd perfformiad yn unol â'r disgwyliadau (gweler **Atodiad 2, 2023, Argymhelliad 4**). Er bod y newid hwn yn rhoi mewnwelediad gwerthfawr i aelodau y Bwrdd ar effaith cyflawni camau gweithredu Cynllun Tymor Canolig Integredig 2024–27, gellid cryfhau'r adroddiadau hyn ymhellach, er enghraifft, drwy ddarparu crynodeb neu ddangosfwrdd er mwyn galluogi aelodau i fesur y cynnydd cyffredinol o'i gymharu â'r camau gweithredu. Ymhellach, er bod Cynllun Tymor Canolig Integredig 2024–27 yn cynnwys cerrig milltir a dyddiadau targed, ni chynhwysir y rhain yn yr adroddiadau cynnydd.

# Systemau sicrwydd corfforaethol

24 Gwnaethom ystyried a oes gan yr Ymddiriedolaeth ddull corfforaethol cadarn ar gyfer rheoli risgiau, perfformiad, ac ansawdd a diogelwch gwasanaethau.

25 Canfuom **fod yr Ymddiriedolaeth yn parhau i gryfhau ei systemau sicrwydd corfforaethol a'i bod yn cymryd camau cadarnhaol i wella ei Fframwaith Sicrwydd Bwrdd. Fodd bynnag, mae cyfleoedd o hyd i gryfhau fframwaith yr Ymddiriedolaeth ar gyfer rheoli perfformiad sefydliadol a goruchwylio ansawdd a diogelwch gwasanaethau.**

## Dull corfforaethol o oruchwylio risgiau strategol

26 Gwnaethom ystyried a oes gan yr Ymddiriedolaeth ddull corfforaethol cadarn o nodi, goruchwylio a chraffu ar risgiau strategol er mwyn cyflawni blaenoriaethau/amcanion strategol yn ogystal â risgiau corfforaethol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:

- Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd cyfredol ac sydd ar gael i'r cyhoedd ac ar waith, sy'n dwyn ynghyd yr holl wybodaeth berthnasol am y risgiau i gyflawni blaenoriaethau/amcanion strategol y sefydliad;
- y Bwrdd yn mynd ati adolygu, diweddaru, defnyddio a derbyn cyfrifoldeb am Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd er mwyn goruchwylio a chraffu ar risgiau strategol, gan fynd i'r afael â nhw;
- fframwaith rheoli risgiau priodol a chyfredol sydd ar waith, sy'n cael ei danategu gan gyfrifoldebau, swyddogaethau, gweithdrefnau a pholisïau clir;
- y Bwrdd yn darparu trosolwg effeithiol ac yn craffu ar effeithiolrwydd y system rheoli risgiau a'r risgiau corfforaethol.

27 Canfuom fod **yr Ymddiriedolaeth yn cynnal rhaglen waith arwyddocaol i gryfhau ei threfniadau rheoli risgiau, gan gynnwys gwella Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd er mwyn sicrhau ei bod yn canolbwyntio yn fwy ar risgiau i gyflawni amcanion strategol.**

28 Mae'r Rhaglen Trawsnewid Rheoli Risg[4], yr ydym wedi ei thrafod mewn adroddiadau asesu strwythuredig blaenorol, wedi dechrau ar ei thrydedd flwyddyn a'i blwyddyn olaf ac mae'n parhau i gael ei goruchwylio a'i monitro gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Yn rhan o'r rhaglen, cymeradwyodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Bolisi Rheoli Risgiau yr Ymddiriedolaeth sy'n disodli'r Strategaeth Risg, ac fe'i cymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Mawrth 2024.

29 Gwnaeth ein hadroddiad asesu strwythuredig 2023 sylwadau ar sut y mae Fframwaith Sicrwydd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn canolbwyntio ar risgiau corfforaethol, yn hytrach na risgiau strategol i gyflawni amcanion strategol yr Ymddiriedolaeth. Ym mis Awst 2024, cyhoeddodd Archwilio Mewnol adroddiad sgorio sicrwydd rhesymol ar drefniadau rheoli risgiau yr Ymddiriedolaeth. Mae'r adroddiad yn nodi, er bod cofnodi, monitro ac adrodd risgiau yn cael ei wneud yn dda, nad yw trywydd archwilio clir ar gyfer rheoli risgiau lleol a risgiau y

[4] Cyflwynwyd Rhaglen Trawsnewid Risgiau yr Ymddiriedolaeth yn 2022–23, sef cynllun tair blynedd i wella rheolaeth risg drwy ailfynegi prif risgiau, datblygu polisïau a gweithdrefnau rheoli risg, a datblygu Fframwaith Sicrhau Bwrdd strategol.

gyfarwyddiaeth ar gael bob amser nac yn cael ei ddal yn ganolog. Roedd yr adroddiad hefyd yn cydnabod bod heriau gyda'r ffaith bod Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn cael ei ddiweddaru â llaw ar hyn o bryd a chyfyngiadau y fformat o ran galluogi gwaith rheoli risgiau effeithiol a chyson. Gwnaeth Archwilio Mewnol chwe argymhelliad blaenoriaeth canolig, gan gynnwys sicrhau bod ffurflenni asesu risgiau yn cael eu cwblhau'n gyson ar gyfer pob risg.

30 Yn gynnar yn 2024, comisiynodd yr Ymddiriedolaeth ymgynghorwyr allanol, BDO Ltd, i ddarparu canllawiau arferion da ar dair elfen o'i fframwaith rheoli risgiau—adeiladu Fframwaith Sicrwydd Bwrdd strategol, datblygu datganiadau parodrwydd i dderbyn risg, ac ail-leoli risgiau uchaf hirsefydlog yr Ymddiriedolaeth. Cyflwynwyd canfyddiadau, canllawiau ac argymhellion allweddol BDO Ltd yng nghyfarfod mis Medi 2024 y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Argymhellodd alinio Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd ag amcanion strategol yr Ymddiriedolaeth, adolygu prif risgiau er mwyn gwahaniaethu rhwng y risgiau sydd o fewn rheolaeth yr Ymddiriedolaeth a'r rhai sydd y tu hwnt i'w rheolaeth, ac adolygu effeithiolrwydd rheolaethau mewnol. Roedd yr Ymddiriedolaeth wrthi'n datblygu cynllun i weithredu'r argymhellion ar adeg ein hadolygiad. Roedd yr Ymddiriedolaeth hefyd yn recriwtio i swydd Rheolwr Risgiau newydd i'w chefnogi i wneud cynnydd effeithiol ac amserol, ond mae'n cydnabod y bydd y newidiadau ehangach hyn hefyd yn gofyn am gymorth ac ymgysylltiad ar draws y sefydliad i ymwreiddio'n effeithiol.

31 Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn cael crynodeb o'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol a Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd ym mhob cyfarfod. Yn ogystal â hynny, mae pwyllgorau eraill yn parhau i adolygu a chraffu ar y risgiau sy'n berthnasol i'w cylch gwaith, gan eu herio, ym mhob un o'u cyfarfodydd priodol. Mae Tîm Arwain Cyfarwyddwr Cynorthwyol yr Ymddiriedolaeth a'r Tîm Arwain Gweithredol yn parhau i oruchwylio a rheoli risgiau ar lefel weithredol. Canfu ein harsylwadau o gyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau dystiolaeth o agendâu a thrafodaethau yn canolbwyntio'n briodol ar risgiau gweithredol sylweddol yr Ymddiriedolaeth. Unwaith eto ar gyfer 2024, mae'r risgiau hyn yn cynnwys amseroldeb ymateb 999 gweithredol, ansawdd gofal a chanlyniadau, a darparu ymateb argyfwng sifil pe byddai digwyddiad mawr.

32 Fodd bynnag, mae dwy risg uchaf yr Ymddiriedolaeth yn parhau i fod ar y sgôr uchaf o 25, er i'r Ymddiriedolaeth gwblhau'r mwyafrif o'r camau o fewn ei rheolaeth i liniaru'r risgiau hyn. Ar adeg ein gwaith maes (ac yn unol â'r gwaith a wnaed gan BDO Ltd), roedd yr Ymddiriedolaeth yn cynnal trafodaethau i ystyried dull gwahanol o reoli a monitro'r meysydd hynny sydd o fewn rheolaeth yr Ymddiriedolaeth a'r rhai hynny sydd y tu hwnt i'w rheolaeth.

## Dull corfforaethol o oruchwylio'r perfformiad sefydliadol

33 Gwnaethom ystyried a oes gan yr Ymddiriedolaeth ddull corfforaethol cadarn o nodi, goruchwylio a chraffu ar y perfformiad sefydliadol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:

- fframwaith rheoli perfformiad priodol, cynhwysfawr, a chyfredol sydd ar waith, sy'n cael ei danategu gan swyddogaethau a chyfrifoldebau clir;
- y Bwrdd a'r pwyllgorau yn darparu trosolwg effeithiol ac yn craffu ar y perfformiad sefydliadol.

34 Canfuom fod gan **yr Ymddiriedolaeth drefniadau rheoli perfformiad rhesymol ar waith o hyd, a chymerir chamau priodol i fynd i'r afael â meysydd lle bo tanberfformiad. Fodd bynnag, mae angen diweddaru rhywfaint ar y fframwaith ar gyfer rheoli perfformiad yr Ymddiriedolaeth.**

35 Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i reoli perfformiad yn unol â'i Fframwaith Rheoli Ansawdd a Pherfformiad 2022–25, a gymeradwywyd ym mis Mawrth 2022. Diweddarwyd y Fframwaith Rheoli Ansawdd a Pherfformiad i adlewyrchu'r Dyletswyddau Gonestrwydd ac Ansawdd newydd ac mae'n cyfeirio at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015). Er bod y Fframwaith Rheoli Ansawdd a Pherfformiad yn cynnwys swyddogaethau a chyfrifoldebau clir, mae angen diweddaru rhai o'r teitlau swyddi a restrir **(Argymhelliad 2)**. Bydd angen hefyd i'r Fframwaith Rheoli Ansawdd a Pherfformiad gyd-fynd â threfniadau rheoli risgiau diwygiedig yr Ymddiriedolaeth maes o law.

36 Mae'r Tîm Gweithredol yn adolygu'r metrigau yn yr Adroddiadau Ansawdd a Pherfformiad Integredig Misol yn flynyddol i sicrhau eu bod yn parhau i fod y ffordd orau o olrhain y cynnydd o'i gymharu â chynlluniau yr Ymddiriedolaeth. Ystyriodd a chymeradwyodd y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad y gwelliannau bach a wnaed yn rhan o'r metrigau diweddaredig ar gyfer 2024–25 ym mis Gorffennaf 2024. Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i adrodd ei pherfformiad o'i gymharu â'r metrigau cymeradwy drwy'r Adroddiadau Ansawdd a Pherfformiad Integredig Misol a gyflwynir ym mhob cyfarfod Bwrdd a phwyllgor. Mae pwyllgorau hefyd yn cael adroddiadau penodol sy'n pwysleisio ar fetrigau yn eu cylch gwaith. Er gwaethaf materion perfformiad cyson, mae'r Bwrdd yn parhau i ddarparu her a gwaith chraffu priodol sy'n ceisio annog gwelliant.

37 Mae adroddiadau perfformiad diweddar yn dangos bod yr Ymddiriedolaeth wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer y galwadau sy'n cael eu categoreiddio fel rhai coch (difrifol ac sy'n peryglu bywyd yn uniongyrchol) yn 2024 o'i chymharu â 2023. Fodd bynnag, i raddau helaeth, mae'r Ymddiriedolaeth wedi cynnal y lefel perfformiad o ran cyrraedd galwadau coch o fewn wyth munud a'r amser canolrifol ar gyfer ymateb i alwadau oren. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi gweld cynnydd yn nifer yr oriau a gollwyd oherwydd oedi wrth drosglwyddo cleifion i ysbytai ar draws 2024 o'i chymharu â 2023. Er bod perfformiad yn parhau i fod yn heriol, mae'r Ymddiriedolaeth wedi gallu lliniaru hyn i raddau drwy ei phwyslais ar leihau'r lefelau absenoldeb oherwydd salwch a thrwy gynnal lefelau cynhyrchu ar gyfer ambiwlansys. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn parhau i gynnal trafodaethau gyda byrddau iechyd i sbarduno gwelliannau o ran oedi wrth drosglwyddo cleifion, gan gynnwys drwy gael mynediad uniongyrchol at lwybrau sy'n amgenach nag Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys. Pan fydd ar waith, dylai'r model clinigol newydd alluogi'r Ymddiriedolaeth i fynd i'r afael â rhai o'i heriau perfformiad drwy

symleiddio a gwella mynediad at y cyngor gofal iechyd a ddarperir gan yr Ymddiriedolaeth er mwyn cadw cleifion gartref pan fo hynny'n briodol.

## Dull corfforaethol o oruchwylio ansawdd a diogelwch gwasanaethau

38 Gwnaethom ystyried a oes gan yr Ymddiriedolaeth ddull corfforaethol cadarn ar gyfer goruchwylio a chraffu ar ansawdd a diogelwch gwasanaethau. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:

- y Bwrdd yn darparu trosolwg effeithiol ac yn craffu ar effeithiolrwydd fframwaith llywodraethu ansawdd;
- strwythurau sefydliadol clir a llinellau atebolrwydd sydd ar waith ar gyfer llywodraethu clinigol/ansawdd;
- y Bwrdd a'r pwyllgorau perthnasol yn darparu trosolwg effeithiol ac yn craffu ar ansawdd a diogelwch gwasanaethau.

39 Canfuom fod gan **yr Ymddiriedolaeth ddull corfforaethol gweddol gadarn o hyd o oruchwylio a chraffu ar ansawdd a diogelwch gwasanaethau, ond bod cyfleoedd o hyd i gryfhau'r trefniadau hyn ymhellach.**

40 Ar hyn o bryd, mae'r Ymddiriedolaeth yn datblygu Cynllun Ansawdd i ddisodli ei Strategaeth Ansawdd 2021–24 blaenorol. Mae'r Pwyllgor Ansawdd, Profiad Cleifion a Diogelwch wedi bod cael yr wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad y cynllun newydd.

41 Yn ddiweddar, gwnaethom gynnal adolygiad dilynol o'r argymhellion a wnaethom yn ein Hadolygiad o Drefniadau Llywodraethu Ansawdd 2022, a oedd hefyd yn cynnwys adolygiad o'r camau y mae'r Ymddiriedolaeth yn eu cymryd i weithredu'r Ddyletswydd Ansawdd a'r Ddyletswydd Gonestrwydd newydd o dan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020. Canfuom fod angen i'r Ymddiriedolaeth gymryd camau i sicrhau bod uchelgeisiau ei Chynllun Ansawdd newydd yn gyflawnadwy ac yn cael adnoddau, o ystyried bod gweithrediad y Strategaeth Ansawdd flaenorol yn arafach na'r hyn a fwriadwyd oherwydd cyfyngiadau o ran adnoddau a chapasiti. Hefyd, gwnaethom argymhellion newydd yn ymwneud â chryfhau'r broses o adrodd ar gynnydd mewn cysylltiad â'i uchelgeisiau ansawdd, gwella'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd archwilio clinigol, cynyddu'r cyfraddau sy'n manteisio ar hyfforddiant Dyletswydd Ansawdd, a sicrhau bod adolygiad o bolisïau yn cynnwys gwerthusiad ansawdd.

42 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cryfhau ei strwythurau sefydliadol a'i llinellau atebolrwydd ar gyfer llywodraethu clinigol/ansawdd yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae hyn yn cynnwys Uwch-dîm Ansawdd sy'n cynnwys penaethiaid gwasanaeth a phartneriaid busnes, sy'n goruchwylio'r broses o gyflawni'r Strategaeth Ansawdd, Grŵp Rheoli Ansawdd sy'n cefnogi system rheoli ansawdd yr Ymddiriedolaeth, yn ogystal â Grŵp Llywodraethu Ansawdd Clinigol sy'n uwchgyfeirio materion sy'n ymwneud â llywodraethu ansawdd i'r Pwyllgor Ansawdd, Profiad Cleifion a Diogelwch er sicrwydd a goruchwyliaeth. Mae gwaith

yn parhau i sicrhau bod gan bob un o'r grwpiau Gylch Gorchwyl cytunedig a dogfennaeth glir. Canfuom safbwyntiau cryf ymhlith y rhai y gwnaethom siarad â nhw fod y fframwaith llywodraethu newydd yn cael effaith gadarnhaol. Fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod bod meysydd gwella parhaus yn ymwneud â phresenoldeb yng nghyfarfodydd y Grŵp Rheoli Ansawdd yn ogystal ag ansawdd yr wybodaeth a gyflwynir i'r cyfarfodydd hynny. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cymryd camau i reoli'r heriau hyn.

43 Mae'r Pwyllgor Ansawdd, Profiad Cleifion a Diogelwch yn parhau i adolygu gwybodaeth o ansawdd allweddol yn briodol, gan ganolbwyntio ar y risg uchel o niwed i gleifion. Yn ystod 2023–24, mae'r Ymddiriedolaeth wedi gweld cynnydd parhaus yn nifer y pryderon a dderbynnir a digwyddiadau difrifol a rennir â chydweithwyr yn y bwrdd iechyd i ymchwilio iddynt o dan y Fframwaith Ymchwilio ar y Cyd, yn ogystal â chynnydd yn y ceisiadau am wybodaeth gan Grwneriaid.

44 Yn ogystal â niferoedd cynyddol ar draws metrigau perfformiad ansawdd megis cwynion a phryderon ac amseroedd ymateb gwael, roedd yr Ymddiriedolaeth yn gweld rhagor o bwysau ar ei gapasiti a achosid gan ofynion o dan y Dyletswyddau Ansawdd a Gonestrwydd. Mewn ymateb, ymgymerodd yr Ymddiriedolaeth â phroses newid sefydliadol a sicrhaodd fuddsoddiad mewn adnoddau ychwanegol, gan gynnwys Pennaeth Gweithio i Wella newydd. Ym mis Mai 2024, derbyniodd y Pwyllgor Ansawdd, Profiad Cleifion a Diogelwch Gynllun Adfer Gweithio i Wella, ac mae'r holl gamau gweithredu i fod i gael eu cwblhau erbyn mis Ebrill 2025. Yng nghyfarfod mis Awst 2024 y Pwyllgor Ansawdd, Profiad Cleifion a Diogelwch, dywedodd yr Ymddiriedolaeth yn gryno fod y cynllun adfer ar y trywydd iawn.

## Dull corfforaethol o olrhain argymhellion

45 Gwnaethom ystyried a oes gan yr Ymddiriedolaeth ddull corfforaethol cadarn o oruchwylio ac o graffu ar systemau at ddibenion olrhain y cynnydd er mwyn mynd i'r afael ag argymhellion archwilio ac adolygu a chanfyddiadau. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:

- systemau priodol ac effeithiol ar waith er mwyn olrhain ymatebion i argymhellion a chanfyddiadau archwilio ac argymhellion a chanfyddiadau adolygu eraill mewn modd amserol.

46 Canfuom fod **yr Ymddiriedolaeth yn parhau i gryfhau ei dull corfforaethol o olrhain cynnydd er mwyn mynd i'r afael ag argymhellion archwilio ac adolygu.**

47 Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i gryfhau ei systemau ar gyfer olrhain a gweithredu argymhellion a chanfyddiadau archwilio. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gweithio gydag Iechyd a Gofal Digidol Cymru ar system olrhain awtomataidd a ddylai fod ar waith erbyn mis Ebrill 2025. Yn y cyfamser, mae Tîm Llywodraethu Corfforaethol yr Ymddiriedolaeth wedi parhau i adolygu'r holl argymhellion sy'n weddill, ac mae'r rheolwyr yn adrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn rheolaidd. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn parhau i gyfeirio darnau perthnasol o'r

olrheiniwr archwilio at bob pwyllgor er mwyn cefnogi'r gwaith o oruchwylio a chraffu ar argymhellion sy'n ymwneud â'u cylch gwaith. Datblygwyd yr olrheiniwr ymhellach i gynnwys rhesymau dros gamau gweithredu i argymhellion sy'n hwyr, a yw cynnydd wedi ei gyflawni, ac a oes dyddiad cwblhau arfaethedig newydd. Mae'r Tîm Llywodraethu Corfforaethol wedi rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ei fod yn rhoi her gref pan fo ceisiadau i ohirio cwblhad camau rheoli, ac na chaniateir symud dyddiadau mwy na thair gwaith.

48 Fodd bynnag, mae'n destun pryder bod ein Hadolygiad Dilynol o Drefniadau Llywodraethu Ansawdd 2024 wedi nodi bod sawl cam gweithredu a oedd wedi eu cau ar yr olrheiniwr yr oeddem yn ystyried eu bod yn parhau. Roedd hyn yn cynnwys darparu gwybodaeth gyson am weithgarwch adolygu marwolaethau ac adrodd canlyniadau archwiliad clinigol. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymateb i hyn ac mae'n ystyried ffyrdd o annog ymrwymiadau cliriach i gamau gweithredu yn ymatebion rheolwyr i argymhellion.

# Tryloywder, effeithiolrwydd a chydlyniad y Bwrdd

49 Gwnaethom ystyried a yw Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn cynnal ei fusnes yn briodol, yn effeithiol ac yn dryloyw.

50 Canfuom fod **newidiadau diweddar i aelodaeth y Bwrdd wedi eu rheoli'n dda a bod y Bwrdd wedi parhau i gynnal ei fusnes yn effeithiol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i ddangos ymrwymiad cryf i dryloywder cyhoeddus a gwelliant parhaus. Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i fod yn ymrwymedig wrando ar gleifion, staff a rhanddeiliaid eraill; fodd bynnag, mae cyfleoedd o hyd i wella'r trefniadau hyn ymhellach.**

## Tryloywder cyhoeddus busnes y Bwrdd

51 Gwnaethom ystyried a yw'r Bwrdd yn hybu ac yn dangos ymrwymiad i dryloywder cyhoeddus busnes y bwrdd a'r pwyllgorau. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn yn y Bwrdd a'r pwyllgor:

- cyfarfodydd sy'n hygyrch i'r cyhoedd;
- papurau sydd ar gael i'r cyhoedd cyn y cyfarfodydd; a
- busnes a phenderfyniadau a wneir yn dryloyw.

52 Canfuom fod **yr Ymddiriedolaeth yn parhau i ddangos ymrwymiad cryf i dryloywder cyhoeddus busnes y Bwrdd a'r pwyllgorau.**

53 Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i gynnal cyfarfodydd Bwrdd cyhoeddus yn y cnawd sy'n cael eu darlledu'n fyw ar Facebook, ac mae recordiadau ar gael ar YouTube yn fuan ar ôl hynny. Er bod yr Ymddiriedolaeth wedi cynnal pob un o'i chyfarfodydd Bwrdd cyhoeddus 2023 yng Nghaerdydd, mae'n trafod ailafael yn ei harfer blaenorol o gylchdroi cyfarfodydd ledled Cymru er mwyn darparu cyfleoedd ychwanegol i aelodau y Bwrdd gyfarfod â staff o wahanol ardaloedd.

54 Mae’r Ymddiriedolaeth yn parhau i ddarparu cyfleoedd i aelodau o’r cyhoedd gyflwyno cwestiynau cyn cyfarfodydd cyhoeddus y Bwrdd. Er bod ein hadolygiad o bapurau wedi canfod niferoedd isel o gwestiynau a gyflwynwyd ar gyfer cyfarfodydd diweddar, mae’r cofnodion yn dangos yn glir ymrwymiad y Bwrdd i ddarparu ymatebion cynhwysfawr a phriodol, gan gynnwys defnyddio’r log gweithredu i olrhain ymatebion a ddarperir y tu allan i’r cyfarfod.

55 Mae Cadeiryddion Pwyllgorau yn penderfynu a yw cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn rhithiol yn unig neu gan ddefnyddio dull hybrid, lle gall aelodau ymuno yn y cnawd neu ar-lein. Mae’r mwyafrif o bwyllgorau yr Ymddiriedolaeth yn cyfarfod yn rhithiol, a phenderfynir hyn yn ystod cyfarfodydd gosod agenda. Mae gwybodaeth ar gael ar wefan yr Ymddiriedolaeth am sut y gall aelodau o’r cyhoedd gyflwyno ceisiadau i arsylwi cyfarfodydd pwyllgor nad ydynt yn cael eu darlledu’n fyw.

56 Mae papurau ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau ar gael ymlaen llaw ar wefan yr Ymddiriedolaeth bron bob amser, yn unol â’r Rheolau Sefydlog. Prin iawn yw’r eithriadau pan nad yw rhai papurau yn cael eu cyhoeddi saith niwrnod ymlaen llaw, gan gynnwys cyflwyniadau ariannol i’r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad oherwydd bod cyfarfodydd yn agos at yr amser pryd y cyflwynir gwybodaeth i Lywodraeth Cymru. Mae’r Ymddiriedolaeth yn parhau i leihau’r defnydd o sesiynau cyfarfod Bwrdd a phwyllgorau preifat (neu gaeëdig), gan gadw materion priodol ar gyfer rhesymau sensitif a chyfrinachol.

57 Yn dilyn ein hasesiad strwythuredig ar gyfer 2023, mae’r Ymddiriedolaeth bellach yn darparu Adroddiad ysgrifenedig y Cadeirydd ar gyfer pob cyfarfod Bwrdd cyhoeddus er mwyn cefnogi tryloywder ymhellach (gweler **Atodiad 2, 2023, Argymhelliad 1a**). Cytunodd yr Ymddiriedolaeth hefyd i ddarparu cofnod amserol o gyfarfodydd pwyllgorau drwy gyhoeddi ei Hadroddiadau Amlygu ar gyfer Rhybuddio, Sicrhau a Chynghori o fewn 14 diwrnod i gyfarfodydd. Cwblhawyd hyn yn fras yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, canfu ein hadolygiad o bapurau nad oedd adroddiadau ar gael ar gyfer dau gyfarfod oherwydd amseriad cyfarfod dilynol y Bwrdd, pan gyflwynwyd yr Adroddiadau Amlygu ar lafar. Mae’r Ymddiriedolaeth wedi datgan y bydd yn darparu eglurder ychwanegol ar y wefan er mwyn sicrhau bod y cyhoedd yn deall sut i gael gafael ar gofnod amserol o’r penderfyniadau a’r trafodaethau allweddol a wneir yn ystod cyfarfodydd pwyllgorau (gweler **Atodiad 2, 2023, Argymhelliad 1b**).

## Trefniadau i gefnogi ymddygiad busnes y Bwrdd

58 Gwnaethom ystyried a oes trefniadau priodol a thryloyw ar waith i gefnogi ymddygiad effeithiol busnes y Bwrdd a’r pwyllgorau. Roeddem yn chwilio’n benodol am dystiolaeth o’r hyn a ganlyn, yn ffurfiol, yn gyfoes ac ar gael i’r cyhoedd:

- Cadw a Dirprwyo Pwerau a Chynllun Dirprwyo ar waith, sy’n nodi atebolrwydd yn glir;
- Rheolau Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog ar waith, ynghyd â thystiolaeth o gydymffurfiaeth;

- polisïau a gweithdrefnau ar waith i hybu a sicrhau cywirdeb a phriodoldeb.

59 Canfuom fod gan **yr Ymddiriedolaeth drefniadau priodol a thryloyw ar waith o hyd i gefnogi ymddygiad effeithiol busnes y Bwrdd a'r pwyllgorau, ac y cyflawnwyd cynnydd sylweddol i ddiweddaru polisïau.**

60 Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Bwrdd yn parhau i adolygu Rheolau Sefydlog yr Ymddiriedolaeth yn rheolaidd, gan gynnwys y Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog a'r Cynllun Cadw a Dirprwyo. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi diwygio ei Rheolau Sefydlog bedair gwaith[5] ers ein hasesiad strwythuredig 2023, er mwyn:

- adlewyrchu'r Model Rheolau Sefydlog a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru;
- newid y dirprwyaethau rhwng aelodau y Tîm Gweithredol;
- cydnabod y Cydbwyllgor Comisiynu newydd; a
- diweddaru enw yr Ymddiriedolaeth yn sgil cyflawni statws Ymddiriedolaeth Prifysgol.

Ym mis Mawrth 2024, cyflwynodd Archwilio Mewnol sgôr sicrwydd rhesymol ar Raglen Amnewid Cerbydau yr Ymddiriedolaeth a amlygodd ddiffyg cydymffurfiaeth wrth gymeradwyo contractau gan y Bwrdd. Anogodd hyn yr Ymddiriedolaeth i gynnal archwiliad ehangach o'r Cynllun Cadw a Dirprwyo, gan arwain at welliannau er mwyn egluro arferion sefydledig a datblygu Nodyn Ymarfer Llywodraethu. Trafododd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg pob newid, ac fe'u cymeradwywyd gan y Bwrdd. Mae'r Rheolau Sefydlog ffurfiol a chyfredol ar gael i'r cyhoedd ar wefan yr Ymddiriedolaeth.

61 Yn 2023, adroddodd yr Ymddiriedolaeth mai dim ond 14% o'i pholisïau oedd o fewn eu dyddiad adolygu disgwyliedig. Ym mis Medi 2024, cafodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg sicrwydd ar y cynnydd sylweddol a wnaed i fynd i'r afael â hyn, ac adolygwyd 45% o bolisïau yr Ymddiriedolaeth a nodwyd fel blaenoriaeth. Disgwylir y bydd 52% o holl Bolisïau yr Ymddiriedolaeth o fewn eu dyddiad adolygu erbyn mis Rhagfyr 2024.

62 Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i gyhoeddi datganiadau o fuddiannau a'r Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch ar ei gwefan. Fodd bynnag, nodwn fod nifer y rhoddion a'r lletygarwch yn parhau i fod yn isel iawn i sefydliad o faint yr Ymddiriedolaeth. Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i annog cydymffurfiaeth uwch drwy weithgareddau cyfathrebu, gan gynnwys posteri i godi ymwybyddiaeth ymhlith staff o'r angen i ddatgan rhoddion. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud gwaith sylweddol yn ystod 2024 i ehangu ei phroses cofnodi datganiadau o fuddiannau sydd bellach yn cynnwys dros 250 o wneuthurwyr penderfyniadau. Y tu hwnt i'r cofrestrau, mae'r Ymddiriedolaeth yn ein hysbysu bod diwylliant mwy tryloyw ynghylch datganiadau o fuddiannau a bod y staff yn ceisio cymorth a chanllawiau yn rhagweithiol gan y Tîm Llywodraethu Corfforaethol.

[5] Medi 2023, Tachwedd 2023, Ebrill 2024, a Gorffennaf 2024

## Effeithiolrwydd cyfarfodydd y Bwrdd a'r pwyllgorau

63 Gwnaethom ystyried a yw cyfarfodydd y Bwrdd a'r pwyllgorau yn cael eu cynnal yn briodol ac yn effeithiol, a'u cefnogi gan wybodaeth amserol ac o ansawdd uchel. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:

- strwythur pwyllgor priodol, integredig ac sy'n gweithredu'n dda sydd ar waith, sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau a risgiau strategol allweddol, sy'n adlewyrchu canllawiau perthnasol, ac yn helpu i gyflawni gofynion statudol;
- papurau Bwrdd a phwyllgorau clir ac amserol sy'n cynnwys y lefel angenrheidiol o wybodaeth sydd ei hangen/yn briodol ar gyfer gwneud penderfyniadau effeithiol, gwaith craffu a sicrwydd;
- agendâu a rhaglenni gwaith y Bwrdd a'r pwyllgorau, sy'n cwmpasu pob agwedd ar eu Cylch Gorchwyl priodol yn ogystal â chael eu llunio'n barhaus gan Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd;
- cyfarfodydd Bwrdd a phwyllgorau sy'n cael eu cadeirio'n dda, sy'n dilyn prosesau y cytunwyd arnynt, gydag aelodau'n cadw at ymddygiad y cyfarfodydd ac yn darparu cydbwysedd da o ran craffu, cefnogaeth a her; a
- pwyllgorau sy'n cael sicrwydd gofynnol ac yn gweithredu arno, ac sy'n rhoi sicrwydd amserol a phriodol i'r Bwrdd.

64 Canfuom fod **cyfarfodydd y Bwrdd a'r pwyllgorau yn parhau i gael eu cynnal yn briodol ac yn effeithiol, gan ymdrin yn dda â risgiau a materion allweddol.**

65 Mae gan yr Ymddiriedolaeth strwythur pwyllgor integredig o hyd sy'n gweithredu'n dda. Roedd holl gyfarfodydd y Bwrdd a'r pwyllgorau yn 2023–24 yn gwneud cworwm. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi diweddaru cylch gorchwyl pob pwyllgor yn ystod 2023–24, ac fe'u cymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Mai 2024. Mae gan bob pwyllgor Gyfarwyddwr Gweithredol a/neu Gyfarwyddwr Arweiniol sy'n gweithio'n agos gyda'r Cadeirydd a'r Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol i osod yr agenda ar gyfer cyfarfodydd ac yn cynllunio cylch busnes y pwyllgor. Maes o law, bydd angen i'r Ymddiriedolaeth ystyried y ffordd orau o adlewyrchu ac ymgorffori gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i fusnes arferol y Bwrdd a'r pwyllgorau a'u proses o wneud penderfyniadau. Rydym yn ymwybodol na wnaeth Cyfarwyddwyr Anweithredol gyfarfod yn rheolaidd fel grŵp yn ystod hanner cyntaf 2024, ond yn gadarnhaol, nodwn fod hyn wedi ailddechrau yn ddiweddar.

66 Mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn parhau i gael gwybodaeth o ansawdd da yn gyffredinol i gefnogi gwaith craffu, cymorth, a her effeithiol. Mae papurau ar gael cyn cyfarfodydd, ac mae eu hansawdd yn parhau i fod yn uchel yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod yr angen parhaus i sicrhau bod adroddiadau yn cyflwyno dadansoddiad, yn hytrach na data yn unig, er mwyn rhoi sicrwydd cryfach i'r aelodau. Mae ein Hadolygiad Dilynol o Drefniadau Llywodraethu Ansawdd 2024 hefyd yn nodi'r angen i gyflwyno gwybodaeth am dueddiadau yn gyson er mwyn cefnogi dealltwriaeth yr aelodau. Ar hyn o bryd, mae'r Ymddiriedolaeth yn archwilio dewisiadau, megis hyfforddiant ac atebion

digidol, i gryfhau adroddiadau a chyflwyniadau y Bwrdd a'r pwyllgorau er mwyn sicrhau eu bod yn llawn gwybodaeth ac yn gryno.

67 Canfu ein harsylwadau o'r Bwrdd a'r pwyllgorau fod cyfarfodydd yn rhedeg yn dda. Mae'r Bwrdd a'r pwyllgorau yn dilyn prosesau cytunedig, gan gynnwys sicrhau bod datganiadau o fuddiannau yn cael eu gwneud a bod y gofrestr yn gyfredol. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn bwriadu datblygu canllawiau ar safon ymddygiad y cyfarfodydd er mwyn cefnogi Cadeiryddion pwyllgorau ymhellach. Mae cyfarfodydd yn cael eu cadeirio'n dda ac mae trafodaeth dda, gyda lefel briodol o her ynghylch risgiau a materion gweithredol. Mae pwyllgorau'n parhau i uwchgyfeirio materion at y Bwrdd drwy Adroddiadau Amlygu ar gyfer Rhybuddio, Sicrhau a Chynghori. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae materion a uwchgyfeiriwyd yn cynnwys y lefelau oedi uchel wrth drosglwyddo cleifion ac effaith yr ôl-groniad a nifer y pryderon ar y tîm Gweithio i Wella a'r tîm ansawdd gweithredol.

68 Mae'r Bwrdd yn rhoi dibyniaeth gynyddol ar y sicrwydd a ddarperir gan y pwyllgorau, sydd wedi arwain at gyfarfodydd Bwrdd cyhoeddus byrrach. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod bod yn rhaid iddi barhau i ystyried dangos yn glir i'r cyhoedd bod gwaith craffu digonol wedi digwydd yn ystod cyfarfodydd pwyllgorau. Wrth i waith ar ei Fframwaith Sicrwydd Bwrdd a pharodrwydd i dderbyn risg fynd rhagddo (gweler **paragraff 31**), dylai cyfarfodydd byrrach y Bwrdd cyhoeddus roi cyfle i'r Bwrdd dreulio mwy o amser yn canolbwyntio ar ei flaenoriaethau a'i risgiau strategol.

## Ymrwymiad y Bwrdd i wrando ar gleifion/defnyddwyr y gwasanaeth a'r staff

69 Gwnaethom ystyried a yw'r Bwrdd yn hybu ac yn dangos ymrwymiad i wrando ar gleifion/defnyddwyr y gwasanaeth a'r staff. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:

- y Bwrdd yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau addas i wrando ar amrywiaeth o gleifion/defnyddwyr y gwasanaeth, y cyhoedd, a'r staff.

70 Canfuom fod **y Bwrdd a'i bwyllgorau yn parhau i wneud defnydd da o straeon cleifion a staff; fodd bynnag, mae cyfleoedd o hyd i ddefnyddio dulliau eraill i wrando ar gleifion a'r staff.**

71 Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i wneud defnydd da o straeon cleifion a staff i gynorthwyo aelodau y Bwrdd i ddeall profiadau defnyddwyr y gwasanaeth a'r staff. Canfu ein harsylwadau fod aelodau y Bwrdd a'r pwyllgorau yn gwerthfawrogi'r straeon hyn yn fawr oherwydd eu bod yn ysgogi trafodaeth bellach ac yn gosod y naws yn ddefnyddiol ar gyfer cyfarfodydd. Mae'r Ymddiriedolaeth yn olrhain pob stori claf ac yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Ansawdd, Profiad Cleifion a Diogelwch y gweithredoedd, y cynnydd a'r canlyniadau yn sgil derbyn y stori yn y cyfarfod

dilynol. O fis Medi 2024, bydd Llais[6] hefyd yn mynd i gyfarfodydd cyhoeddus y Bwrdd, a fydd yn darparu cyfleoedd ychwanegol i wrando ar safbwyntiau cleifion. Fodd bynnag, nid yw straeon staff yn dilyn yr un broses â'r hyn ar gyfer straeon cleifion ar hyn o bryd, ac nid yw'n glir bob amser sut y mae'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio'r wybodaeth hon i roi sicrwydd neu i hybu gwelliant **(Argymhelliad 3)**.

72 Yn ein hadroddiad asesu strwythuredig 2023, gwnaethom nodi bod gwaith yn mynd rhagddo i ddatrys ein hargymhelliad 2022 i nodi camau i fynd i'r afael â materion a nodir mewn adroddiadau profiadau cleifion. Mae ein hadolygiad diweddar o'r adroddiad profiadau cleifion yn dangos ei fod yn parhau i amlygu themâu sylwadau negyddol, ond nad yw'n cyfeirio at y camau gweithredu y mae'r Ymddiriedolaeth yn eu cymryd mewn ymateb (gweler **Atodiad 2, 2022, Argymhelliad 2**).

73 Canfu ein Hadolygiad Dilynol o Drefniadau Llywodraethu Ansawdd 2024 fod yr Ymddiriedolaeth wedi datblygu Gweithdrefn Gweithredu Safonol ar gyfer ymweliadau y Bwrdd. Er y bu heriau o ran sicrhau cwmpas daearyddol a gwasanaeth cyson, rydym yn ymwybodol o'r cynnydd yn nifer yr ymweliadau a'r cwmpas daearyddol ers mis Ebrill 2024 o'u cymharu â 2023–24. Canfuom hefyd fod lle i gryfhau'r broses o roi'r wybodaeth yn ôl a geir o ymweliadau. Fel y nodir yn flaenorol, mae'r Ymddiriedolaeth yn ystyried ailddechrau cylchdroi cyfarfodydd cyhoeddus y Bwrdd yn ddaearyddol, yn ogystal â defnyddio cyfarfodydd Cyfarwyddwr Anweithredol fel dulliau o rannu gwybodaeth a fyddai'n rhoi mwy o gyfleoedd i aelodau drionglu'r wybodaeth y maent yn ei chael yn ffurfiol yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'r pwyllgorau.

## Cydlyniant y Bwrdd a'i ymrwymiad i welliant parhaus

74 Gwnaethom ystyried a yw'r Bwrdd yn sefydlog ac yn gydlynol ac yn dangos ymrwymiad i welliant parhaus. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:

- Bwrdd sefydlog a chydlynol gyda fframwaith o uwch-arweinwyr sydd â'r capasiti, y sgiliau a'r profiad priodol;
- y Bwrdd a'i bwyllgorau yn adolygu eu heffeithiolrwydd yn rheolaidd ac yn defnyddio'r canfyddiadau i lywio a chefnogi gwelliant parhaus; a
- rhaglen datblygu, cefnogaeth a hyfforddiant Bwrdd perthnasol sydd ar waith.

75 Canfuom fod **y Bwrdd yn parhau i ddangos ymrwymiad i welliant parhaus, ac mae'r Ymddiriedolaeth wedi rheoli sawl newid diweddar i aelodaeth y Bwrdd yn dda.**

[6] O 1 Ebrill 2023, disodlodd Llais waith y saith Cyngor Iechyd Cymuned yng Nghymru. Corff annibynnol ydyw sydd â'r nod o gasglu a rhannu profiadau dinasyddion yng Nghymru â gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a darparu cymorth i'r rhai sy'n gwneud cwynion.

76 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gweld nifer o newidiadau i aelodaeth y Bwrdd yn ystod y misoedd diwethaf. Yn dilyn ymddeoliad y Cyfarwyddwr Meddygol tua diwedd 2023, gwnaed y Cyfarwyddwr Parafeddygaeth yn Gyfarwyddwr Gweithredol sydd â hawl i bleidleisio. Sicrhaodd yr Is-gadeirydd Interim y swyddogaeth ar sail barhaol ym mis Gorffennaf 2024 ac mae tri Chyfarwyddwr Anweithredol newydd, gan gynnwys Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad, ac Aelod Prifysgol o'r Bwrdd. Mae gan yr Ymddiriedolaeth un swydd wag Cyfarwyddwr Anweithredol arall y gwneid ceisiadau amdani ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn. Mae newidiadau wedi eu rheoli'n dda, gan sicrhau bod cyfarfodydd yn gwneud cworwm a bod aelodau newydd yn gallu manteisio ar broses cynefino cefnogol. Mae proses yr Ymddiriedolaeth ar gyfer llenwi swyddi gwag aelodau y Bwrdd yn parhau i gael ei llywio gan ddadansoddiad o gymysgedd sgiliau aelodau y Bwrdd, sy'n ei helpu i nodi lle y bo angen iddi sicrhau profiad penodol ychwanegol. Mae ganddi raglen cynefino aelodau y Bwrdd cynhwysfawr hefyd, sy'n ymgorffori dysg o brofiadau penodiadau diweddaraf y Bwrdd.

77 Parhaodd Rhaglen Datblygu'r Bwrdd yn 2023–24. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi dweud bod presenoldeb da yn y saith sesiwn a drefnwyd. Roedd sesiynau'n canolbwyntio ar bynciau amrywiol, gan gynnwys y strategaeth sefydliadol ac adolygiad o fetrigau Adroddiadau Ansawdd a Pherfformiad Integredig Misol, gweithgareddau meithrin tîm a gafodd eu llywio gan Insights Discovery[7] Sesiynau a datblygu Cynllun Tymor Canolig Integredig 2024–27. Mae'r cynnydd o ran datblygu Rhaglen Datblygu Bwrdd tymor canolig a hwylusir yn allanol wedi ei ohirio oherwydd y swyddi gwag ar lefel Bwrdd a'r newidiadau sy'n debygol o ddigwydd ar ôl datblygu Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a chyflwyniad Rhaglen Trawsnewid Model Clinigol. Er gwaethaf hyn, roedd y rhai y buom yn siarad â nhw yn canmol yn fawr werth Sesiynau Datblygu'r Bwrdd presennol, gan ddweud eu bod yn darparu lle defnyddiol ar gyfer trafodaeth onest yn ogystal â chyfleoedd i ddysgu.

78 Cwblhaodd y Bwrdd a'r pwyllgorau adolygiadau effeithiolrwydd ddechrau 2024. Fodd bynnag, mynegodd aelodau y Bwrdd bryder am y cyfraddau ymateb isel i rai pwyllgorau, yn enwedig y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (29%) a'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant (30%). Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn gweithio i wella cyfraddau drwy gwblhau ei adolygiad effeithiolrwydd fesul cam drwy gydol y flwyddyn yn hytrach nag fel ymarfer blynyddol. Adroddwyd canfyddiadau yr adolygiadau effeithiolrwydd i'r Bwrdd ym mis Mai 2024. Roedd sylwadau yn cynnwys safbwyntiau bod y pwyllgorau'n dryloyw ac yn canolbwyntio ar risgiau allweddol, ond roedd sylwadau eraill yn cyfleu awydd i gael rhaglen gynefino ar gyfer pwyllgorau. Rydym yn deall bod yr Ymddiriedolaeth yn bwriadu darparu rhaglenni cynefino ar gyfer pwyllgorau, ond maent wedi eu gohirio oherwydd materion capasiti yn y Tîm Llywodraethu Corfforaethol.

[7] Fframwaith i ddeall ac addasu gwahanol arddulliau cyfathrebu ar sail pedwar maes personoliaeth pennaf yw Insight Discovery.

# Dull corfforaethol o reoli adnoddau ariannol

79 Gwnaethom ystyried a oes gan yr Ymddiriedolaeth ddull corfforaethol cadarn o reoli ei hadnoddau ariannol.

80 Canfuom fod **yr Ymddiriedolaeth yn parhau i gynnal perfformiad ariannol cryf a gefnogir gan waith cynllunio ariannol effeithiol. Fodd bynnag, mae angen i'r Ymddiriedolaeth wella ei threfniadau ar gyfer nodi ac adrodd cynlluniau arbed rheolaidd.**

## Amcanion ariannol

81 Gwnaethom ystyried a oes gan yr Ymddiriedolaeth ddull corfforaethol cadarn o gyflawni ei hamcanion ariannol allweddol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r sefydliad yn gwneud yr hyn a ganlyn:

- cyflawni ei amcanion a'i ddyletswyddau ariannol ar gyfer 2023–24, a'r cyfnod treigl o dair blynedd rhwng 2021–22 a 2023–24; a
- bod ar y trywydd iawn i gyflawni ei amcanion a'i ddyletswyddau yn 2024–25.

82 Canfuom fod **yr Ymddiriedolaeth wedi parhau â'i pherfformiad cryf o ran cyflawni amcanion ariannol allweddol ac mae ar y trywydd iawn i'w bodloni nhw eto yn 2024–25.**

83 Parhaodd yr Ymddiriedolaeth â'i hanes da o gyflawni ei dyletswyddau ariannol yn 2023–24, gan gofnodi gwarged bach o £85,000, a mantoli'r cyfrifon dros gyfnod treigl o dair blynedd 2021–24. Gwariodd yr Ymddiriedolaeth ei gwariant cyfalaf yn unol â'r cynlluniau, ac roedd cydymffurfiaeth â pholisi taliadau y sector cyhoeddus ar y trywydd iawn, gan dalu 96.4% o'r anfonebau nad oeddent yn anfonebau GIG o fewn 30 niwrnod i'w derbyn o'u cymharu â tharged o 95%.

84 Ym mis 5, 2024–25, roedd yr Ymddiriedolaeth yn adrodd tanwariant bach o £31,000 o'i gymharu â'r gyllideb ac yn rhagweld sefyllfa o fantoli'r cyfrifon ar ddiwedd y flwyddyn. Rhagwelir y bydd gwariant cyfalaf yn cael ei wario'n llawn erbyn diwedd y flwyddyn ac mae polisi taliadau y sector cyhoeddus ar y trywydd iawn.

## Dull corfforaethol o gynllunio ariannol

85 Gwnaethom ystyried a oes gan yr Ymddiriedolaeth ddull corfforaethol cadarn ar gyfer goruchwylio a chraffu ar gynllunio ariannol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:

- trefniadau cynllunio ariannol corfforaethol clir a chadarn sydd ar waith;
- y Bwrdd yn craffu'n briodol ar gynlluniau ariannol cyn eu cymeradwyo;
- arbedion cynaliadwy, realistig, ac sydd wedi eu costio'n gywir a chynlluniau gwella costau ar waith sydd wedi eu cynllunio i gefnogi cynaliadwyedd ariannol a thrawsnewid y gwasanaeth;

- y Bwrdd yn craffu'n briodol ar gynlluniau gwellau costau ac arbedion cyn eu cymeradwyo.

86 Canfuom, **er bod gan yr Ymddiriedolaeth ddull cynllunio ariannol clir, fod ei dibyniaeth barhaus ar arbedion afreolaidd yn creu risg o ran cadernid sefydliadol a chynaliadwyedd ariannol.**

87 Craffodd y Bwrdd a'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad ar Gynllun Ariannol yr Ymddiriedolaeth yn rhan o Gynllun Tymor Canolig Integredig 2024–27 cyn ei gyflwyno'n ffurfiol i Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2024. Mae'r Cynllun Ariannol yn nodi'n briodol yr heriau a'r risgiau ariannol presennol sy'n wynebu'r Ymddiriedolaeth. Fodd bynnag, mae'r risgiau ariannol a fynegir yn y Cynllun Ariannol yn dangos mai ychydig iawn o arian wrth gefn sydd ar gyfer pwysau cost anrhagweledig neu dangyflawniad o ran arbedion. Mae rhai pwysau cost a nodir yn y Cynllun Ariannol wedi dod i'r amlwg yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys y pwysau sy'n ymwneud ag ailfandio carfan o Dechnegwyr Meddygol Brys. Mae gan yr Ymddiriedolaeth gynlluniau i reoli'r costau hyn, gan gynnwys ceisio cyllid ychwanegol a rheoli swyddi gwag.

88 Canfu ein Hadolygiad o Drefniadau Arbed Costau 2024 fod yr Ymddiriedolaeth yn defnyddio data o amrywiaeth eang o ffynonellau yn briodol i lywio ei dull o nodi cyfleoedd i wella costau. Canfuom hefyd, er bod gan yr Ymddiriedolaeth hanes da o gyflawni ei tharged cynilo cyffredinol, ei bod wedi gwneud hyn i raddau helaeth drwy gyflawni arbedion afreolaidd. Yn 2023–24, rhagorodd yr Ymddiriedolaeth ar ei tharged arbedion o £6 miliwn gan £0.5 miliwn. Fodd bynnag, roedd dros 55% o'r arbedion a gyflawnwyd gan yr Ymddiriedolaeth yn 2023–24 yn rhai afreolaidd, ac roedd cyfran sylweddol (39%) o'r rhain yn arbedion a gyflawnwyd oherwydd swyddi rheoli gwag.

89 £6.4 miliwn yw targed arbedion yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2024–25, sy'n cyfateb i oddeutu 2.2% o gyllideb sylfaenol y sefydliad. Mae £3.6 miliwn (57%) o'r targed cynilo hwn yn rheolaidd ac mae'r £2.8 miliwn (43%) sy'n weddill yn afreolaidd. Fodd bynnag, mae rhai o'r cynlluniau wedi eu categoreiddio fel arbedion rheolaidd pan maent yn ymwneud â mesurau neu arbedion afreolaidd, er enghraifft, atgyweirio damweiniau, hyblygrwydd mantolen a rheoli costau cyflog gweithredol. Unwaith eto, mae'r Ymddiriedolaeth yn dibynnu ar gyfran sylweddol o'i harbedion (35%) i ddod o reoli swyddi gwag cyflog corfforaethol. Mae hyn yn risg i'r Ymddiriedolaeth oherwydd y straen ar y capasiti a achosir drwy ddal swyddi gwag. Gwnaethom godi'r risg hon yn ein Hadolygiad o Drefniadau Arbed Costau 2024 ac argymell bod yr Ymddiriedolaeth yn cryfhau ei dull o nodi a chyflawni arbedion rheolaidd. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymateb y bydd yn asesu canfyddiadau o'r adolygiad o'i gwasanaethau i weithredu arbedion rheolaidd ychwanegol, pan fo hynny'n bosibl.

90 Ym Mis 5, 2024–25, roedd yr Ymddiriedolaeth wedi cyflawni £3.3 miliwn o arbedion o'u cymharu â tharged o £2.8 miliwn hyd yn hyn eleni, gyda chynlluniau rheolaidd yn gorberfformio ychydig a chynlluniau afreolaidd yn tanberfformio ychydig.

## Dull corfforaethol o reoli ariannol

91 Gwnaethom ystyried a oes gan yr Ymddiriedolaeth ddull corfforaethol cadarn ar gyfer goruchwylio a chraffu ar reolaeth ariannol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:

- rheolaethau effeithiol ar waith sy'n sicrhau cydymffurfiaeth â Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog a Chynlluniau Cadw a Dirprwyo;
- y Bwrdd yn cynnal goruchwyliaeth briodol o drefniadau a pherfformiad sy'n ymwneud â gweithredoedd tendr sengl, taliadau arbennig, colledion, a gwrth-dwyll;
- trefniadau rheoli ariannol effeithiol ar waith sy'n galluogi'r Bwrdd i ddeall sbardunau cost a sut maent yn effeithio ar y broses o gyflawni amcanion strategol; ac
- a gafodd datganiadau ariannol y sefydliad ar gyfer 2023–24 eu cyflwyno'n brydlon, heb gynnwys camddatganiadau perthnasol, ac a gawsant farn archwilio lân.

92 Canfuom fod gan **yr Ymddiriedolaeth ddull corfforaethol cadarn o hyd ar gyfer goruchwylio a chraffu ar reolaeth ariannol.**

93 Ni fu unrhyw newidiadau i systemau a rheolaethau ariannol yr Ymddiriedolaeth ers 2023. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn parhau i oruchwylio a chraffu ar wybodaeth am golledion a thaliadau arbennig yn ei sesiwn gyhoeddus, a gweithgarwch gwrth-dwyll, rheolaethau caffael a chamau tendro sengl yn sesiwn breifat pob cyfarfod. Ni fu unrhyw newidiadau perthnasol yn nifer na natur dyfarniadau tendr sengl na hepgoriadau nac ymchwiliadau gwrth-dwyll eleni. Ni nododd rhaglen waith Archwilio Mewnol unrhyw bryderon sylweddol yn ystod y flwyddyn flaenorol yn ymwneud â rheolaeth ariannol neu gyllidebol ac ni adroddwyd unrhyw faterion rheoli ariannol perthnasol i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

94 Cyflwynodd yr Ymddiriedolaeth ddatganiadau ariannol drafft ar gyfer 2023–24 i'w harchwilio o fewn amserlen ofynnol Llywodraeth Cymru. Nododd ein harchwiliad nifer o gamddatganiadau, wedi eu cywiro a heb eu cywiro, er nad oedd y camddatganiadau yn berthnasol ac nad oeddent yn cael unrhyw effaith (yn unigol neu'n gyfanredol) ar y safle gwarged a gedwir gan yr Ymddiriedolaeth. Ar ôl i'r Bwrdd gymeradwyo'r cyfrifon, gwnaethom gyhoeddi barn archwilio ddiamod ar 12 Gorffennaf 2024.

## Goruchwyliaeth gan y Bwrdd ar y perfformiad ariannol

95 Gwnaethom ystyried a yw'r Bwrdd yn goruchwylio ac yn craffu'n briodol ar y perfformiad ariannol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r Bwrdd yn gwneud yr hyn a ganlyn:

- derbyn adroddiadau cywir, tryloyw ac amserol ar y perfformiad ariannol, yn ogystal â'r heriau ariannol allweddol, risgiau, a chamau lliniaru;

- craffu’n briodol ar asesiadau parhaus sefyllfa ariannol y sefydliad.

96 Canfuom **er bod y Bwrdd yn goruchwylio ac yn craffu ar berfformiad ariannol yn briodol, fod cyfleoedd o hyd i gryfhau cynnwys a chyflwyniad adroddiadau cyllid.**

97 Fel yr adroddir yn ein Hadolygiad o Drefniadau Arbed Costau 2024, canfuom fod goruchwyliaeth reolaidd o’r gwariant ariannol a’r perfformiad o ran arbedion ar lefel Weithredol ac ar lefel y Bwrdd. Fel yr adroddir yn ein hadroddiad asesu strwythuredig 2023, mae agosrwydd cyfarfodydd y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad at ddyddiad cyflwyno adroddiadau ariannol i Lywodraeth Cymru yn golygu nad yw aelodau yn derbyn y cyflwyniad cyn cyfarfodydd. Gwneir hyn er mwyn osgoi cyflwyno gwybodaeth ariannol i’r pwyllgor sydd wedi dyddio ers dros fis. Yn lle hynny, cynhelir cyflwyniad ar ddiwrnod y cyfarfod. Er gwaethaf hyn, mae aelodau y Bwrdd yn dangos dealltwriaeth glir o’r sefyllfa ariannol presennol ac yn darparu lefel briodol o waith craffu a her i gefnogi gwelliant yn ystod cyfarfodydd pwyllgorau.

98 Yn dilyn ein hasesiad strwythuredig yn 2023, mae Cynllun Ariannol 2024–25 yr Ymddiriedolaeth yn darparu tabl sy’n dangos yn glir pa gynlluniau sy’n rheolaidd a pha rai sy’n afreolaidd. Mae’r adroddiad cyllid i’r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad hefyd yn darparu tabl ar berfformiad diweddaraf cynlluniau rheolaidd ac afreolaidd (gweler **Atodiad 2, 2023, Argymhelliad 5**). Fodd bynnag, argymhella ein Hadolygiad o Drefniadau Arbed Costau y dylid adrodd perfformiad arbedion yn gliriach yn yr adroddiadau i’r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad a’r Bwrdd. Roedd hyn oherwydd y posibilrwydd o ddryswch rhwng ffigurau arbedion a ddyfynnir mewn adroddiadau, a achoswyd gan rai a oedd yn cynnwys arian cynhyrchu incwm. Mae’r Ymddiriedolaeth yn ymateb i’r argymhelliad hwn gyda dadansoddiad perfformiad manylach mewn adroddiadau. Hefyd, nodwyd bod disgrifiad naratif nifer bach o gynlluniau arbed yn adroddiad cyllid Mis 5 yn gwyro oddi wrth y disgrifiad yn y Cynllun Ariannol gwreiddiol. Mae’r rhain yn adlewyrchu rhywfaint o gydgrynhoad at ddibenion adrodd yn fisol ac yn ystod y flwyddyn. Pan fo hyn yn digwydd, byddai’n ddefnyddiol i’r Ymddiriedolaeth ei amlygu yn fyr yn ei hadroddiadau er mwyn cefnogi eglurder a galluogi pwyllgorau i gysoni adroddiadau yn ystod y flwyddyn yn haws â’r Cynllun Ariannol.

# Atodiad 1

## Dulliau archwilio

Mae **Arddangosyn 2** isod yn nodi'r dulliau a ddefnyddiwyd gennym i gyflawni'r gwaith hwn. Cyfyngir ein tystiolaeth i'r wybodaeth a dynnwyd o'r dulliau isod.

| Elfen y dull archwilio | Disgrifiad |
|---|---|
| Arsylwadau | Gwnaethom arsylwi cyfarfodydd y Bwrdd yn ogystal â chyfarfodydd y pwyllgorau canlynol:<br>• Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg;<br>• Y Pwyllgor Pobl a Diwylliant;<br>• Y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad;<br>• Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau Cleifion. |
| Dogfennau | Gwnaethom adolygu amrywiaeth o ddogfennau, gan gynnwys:<br>• Cylch Gorchwyl y Bwrdd a'r Pwyllgor, rhaglenni gwaith, agendâu, papurau, a chofnodion;<br>• dogfennau llywodraethu allweddol, gan gynnwys Cynlluniau Dirprwyo, Rheolau Sefydlog, Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, Cofrestrau Buddiant, a Chofrestrau Rhoddion a Lletygarwch;<br>• strategaethau a chynlluniau sefydliadol allweddol, gan gynnwys y Cynllun Tymor Canolig Integredig;<br>• dogfennau rheoli risgiau allweddol, gan gynnwys Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol;<br>• adroddiadau allweddol sy'n ymwneud â pherfformiad a chyllid sefydliadol;<br>• Adroddiad Blynyddol, gan gynnwys y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol;<br>• polisïau a gweithdrefnau perthnasol; ac |

| Elfen y dull archwilio | Disgrifiad |
| --- | --- |
| | • adroddiadau a baratowyd gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, y Gwasanaeth Gwrth-dwyll Lleol, a chyrff allanol perthnasol eraill. |
| Cyfweliadau | Gwnaethom gynnal cyfweliadau â'r Uwch-swyddogion a'r Aelodau Annibynnol canlynol:<br>• Cadeirydd y Bwrdd;<br>• Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio;<br>• Y Prif Swyddog Gweithredol;<br>• Y Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad Strategol;<br>• Y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid;<br>• Y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol/Ysgrifennydd y Bwrdd; |

# Atodiad 2

## Y cynnydd a wnaed o'i gymharu ag argymhellion y flwyddyn flaenorol

Mae **Arddangosyn 3** isod yn nodi'r cynnydd a wnaed gan yr Ymddiriedolaeth wrth weithredu argymhellion o adroddiadau asesu strwythur blaenorol.

| Argymhelliad | Disgrifiad o'r cynnydd |
| --- | --- |
| **Adrodd profiadau cleifion (2022)**<br>A2 Gwella adroddiadau profiad cleifion chwarterol i'r Pwyllgor Ansawdd, Profiad Cleifion a Diogelwch drwy sicrhau cydbwysedd o ran sylwadau cadarnhaol a negyddol a darparu gwybodaeth am yr hyn a wneir i fynd i'r afael â'r themâu negyddol sy'n codi yn yr adroddiad | **Ar y gweill.** Gweler paragraff 72 |
| **Tryloywder busnes Bwrdd a phwyllgorau (2023)**<br>A1 Mae cyfleoedd yn bodoli i wella tryloywder busnes y Bwrdd a'r Pwyllgorau ymhellach. Dylai'r ymddiriedolaeth wneud yr hyn a ganlyn:<br>a) darparu Adroddiad ysgrifenedig y Cadeirydd ar gyfer pob cyfarfod Bwrdd; a<br>b) adolygu a chyhoeddi cofnodion cyfarfodydd pwyllgorau a'r Bwrdd nad ydynt wedi eu cadarnhau o fewn 14 diwrnod i'r cyfarfod. | **Cwblhawyd.** Gweler paragraff 57 |
| **Mynediad cyhoeddus at strategaethau a chynlluniau allweddol (2023)** | **Cwblhawyd.** Gweler paragraff 17 |

| Argymhelliad | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|
| A2 Dylai'r Ymddiriedolaeth gyhoeddi cynlluniau allweddol ar wefan yr Ymddiriedolaeth, gan gynnwys y Cynllun Pobl a Diwylliant a'r Cynllun Tymor Canolig Integredig diweddaraf. | |
| **Eglurder amcanion/camau gweithredu Cynllun Tymor Canolig Integredig (2023)**<br>A3 Canfuom nad yw Cynllun Tymor Canolig Integredig yr Ymddiriedolaeth yn cynnwys gweithredoedd penodol, mesuradwy, cyraeddadwy, realistig ac amser-gyfyngedig. Nid yw llawer ohonynt yn cynnwys canlyniad mesuradwy penodol, ac mae'r Cynllun Tymor Canolig Integredig hefyd yn aneglur o ran ym mha flwyddyn y dylid cyflawni pob cam gweithredu. Fodd bynnag, nodir y cerrig milltir ar gyfer cyflawni mewn mannau eraill. Dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod yr holl gamau a nodir mewn Cynlluniau Tymor Canolig Integredig yn y dyfodol yn benodol, yn fesuradwy, yn gyraeddadwy, yn realistig ac yn amser-gyfyngedig drwy nodi canlyniadau mesuradwy a cherrig milltir cyflawni. | **Cwblhawyd.** Gweler paragraff 20 |
| **Goruchwylio'r broses o gyflawni'r Cynllun Tymor Canolig Integredig (2023)**<br>A4 Er y bu gwelliannau diweddar o ran adrodd cynnydd y Cynllun Tymor Canolig Integredig i'r Pwyllgorau a'r Bwrdd, mae lle i roi gwell eglurder ynghylch a yw'r camau gweithredu a gyflawnir wedi cyflawni'r effaith a fwriedid. Dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod yr holl adroddiadau cynnydd ar y broses o gyflawni'r cynllun yn cynnwys gwybodaeth am yr effaith a gyflawnwyd. | **Cwblhawyd.** Gweler paragraff 23 |
| **Goruchwylio cynlluniau arbed (2023)** | **Cwblhawyd.** Gweler paragraff 98 |

| Argymhelliad | | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|---|
| A5 | Nid yw'r Ymddiriedolaeth yn nodi'n glir yn ei chynlluniau cyllid na'i hadroddiadau a yw cynlluniau arbed yn rheolaidd neu'n afreolaidd. Er mwyn cryfhau'r gwaith goruchwylio arbedion, mae angen i'r Ymddiriedolaeth nodi yn ei chynlluniau a'i hadroddiadau ariannol a yw cynlluniau'n rheolaidd neu'n afreolaidd. | |

# Atodiad 3

## Ymateb y rheolwyr i argymhellion archwilio

**Arddangosyn 4: Ymateb Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Gwasanaethau Ambiwlans Cymru i'n hargymhellion archwilio**

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr<br>Nodwch yma sylwebaeth berthnasol ar y camau gweithredu a gynllunnir mewn ymateb i'r argymhellion | Dyddiad cwblhau<br>Nodwch bryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig yn cael eu cwblhau | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| A1 | Dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod aelodau y Bwrdd yn cael cyfle i drafod a chraffu ar fersiwn ddrafft o'r Cynllun Tymor Canolig Integredig, naill ai mewn cyfarfod ffurfiol neu drwy ei chylchredeg y tu allan i gyfarfodydd, cyn iddi gael ei chyflwyno i'w chadarnhau a'i chymeradwyo'n ffurfiol. **(Paragraff 14)** | Derbyniwyd. O ystyried amseriad cyfarfodydd y bwrdd a'r pwyllgorau, gwneir hyn drwy gylchredeg e-byst. | Mawrth 2025 | Rachel Marsh |

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr<br>Nodwch yma sylwebaeth berthnasol ar y camau gweithredu a gynllunnir mewn ymateb i'r argymhellion | Dyddiad cwblhau<br>Nodwch bryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig yn cael eu cwblhau | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| A2 | Dylai'r Ymddiriedolaeth ddiweddaru ei Fframwaith Rheoli Ansawdd a Pherfformiad i adlewyrchu newidiadau diweddar mewn swyddogaethau mewnol allweddol. **(Paragraff 35)** | Derbyniwyd. Cynhelir adolygiad o'r fframwaith yn Chwarter 4. | Mai 2025 | Rachel Marsh |
| A3 | Dylai'r Ymddiriedolaeth gymhwyso i straeon staff y broses sydd ganddi ar waith ar gyfer straeon cleifion er mwyn rhoi eglurder ar sut mae'r Ymddiriedolaeth wedi cofnodi'r stori, sut y defnyddiwyd y stori at ddibenion sicrwydd neu welliant, a sut mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymateb i'r unigolyn a rannodd ei brofiad. **(Paragraff 71)** | Derbyniwyd. Mae hyn eisoes wedi dechrau. Awgrymu bod hyn yn aros yn agored am gyfnod o ddau gylch y Pwyllgor Pobl a Diwylliant a'r Bwrdd er mwyn gweld y patrwm. | Mai 2025 | Trish Mills |

# Atodiad 4

## Diweddariad statws ar ddysg allweddol o 2023–24

Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru—Adolygiad Gateway o'r Rhaglen Cynaliadwyedd Ariannol—ar 30 Awst 2024

| *Gwers Rhif* | *Maes* | *Crynodeb o'r Profiad* | *Y Wers a Ddysgwyd* | *Diweddariad 30 Awst 2024* |
|---|---|---|---|---|
| *1* | *Cyflwyno Cynllun* | *Yn ystod 2023/24, yn nodweddiadol, roedd cynlluniau yn cael eu cyflwyno ar lafar, drwy e-bost, neu yn ystod fforymau grŵp, ac yn aml dim ond syniad neu awgrym yr oeddent yn eu cynnwys. Daeth y dull hwn o gyflwyno yn un sy'n cymryd llawer o amser i allosod y manylion ac i asesu'r syniad.* | *Yng ngoleuni hyn, drafftiwyd dogfen cynnig cynllun yn ddiweddarach gyda phwyslais ar y manteision (ariannol/o ran ansawdd) a'r risgiau. Gellir cael gafael ar y ddogfen cynnig cynllun hon yn Fframwaith Cyflawni'r Rhaglen Cynaliadwyedd Ariannol.*<br><br>*Bydd porth ar Siren hefyd i gefnogi gwaith cofnodi cywir ac archwiliadau cyflwyniadau.* | *Datblygwyd a throswyd y ddogfen cynnig cynllun yn borth cyflwyno ar-lein ar Dudalen y Rhaglen Cynaliadwyedd Ariannol ar Siren.* |

| *Gwers Rhif* | *Maes* | *Crynodeb o'r Profiad* | *Y Wers a Ddysgwyd* | *Diweddariad 30 Awst 2024* |
|---|---|---|---|---|
| *2* | *Cyfathrebu ac Ymgysylltu* | *Roedd cyfathrebu ac ymwybyddiaeth o'r Rhaglen Cynaliadwyedd Ariannol ar lafar yn bennaf, y tu allan i hierarchaethau sicrwydd nodweddiadol.* | *Yng ngoleuni hyn, bydd presenoldeb cynyddol ar Siren a dull fesul cam o ymdrin â chyfathrebu yn cefnogi cyfathrebu rheolaidd ac ymgysylltu gwell drwy gydol 2024/25.* | *Fel yr uchod, datblygwyd Tudalen Siren ac mae'n fyw, mae'r porthol ar gyfer cyflwyno cynlluniau yn weithredol, ac fe'u rheolir ar y cyd â chyflwyniadau Adolygiad o'r Gwasanaeth a chyflwyniadau WiiN* |
| *3* | *Cynaliadwyedd Ariannol/Cynhyrchu Incwm* | *Aeddfedrwydd Sefydliadol* | *Buddsoddi mewn datblygiad sefydliadol parhaus a throsglwyddo gwybodaeth er mwyn sicrhau bod Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn parhau i fod yn ystwyth ac yn gallu addasu i heriau.* | *Buddsoddi yn y swydd Pennaeth Masnachol ochr yn ochr â strwythur Masnachol er mwyn gwella gwybodaeth arbenigol. Mae'r prosiect a'r gwaith recriwtio ar y gweill.*<br><br>*Mae Adolygiad o'r Gwasanaethau Gweinyddol a Chorfforaethol hefyd wedi amlygu'r angen am hyfforddiant a buddsoddiad ychwanegol mewn cydweithwyr, a weithredir ar hyn o bryd drwy Gynllun Gweithredu sy'n eiddo i'r Tîm Arweinyddiaeth Cyfarwyddwyr* |

| *Gwers Rhif* | *Maes* | *Crynodeb o'r Profiad* | *Y Wers a Ddysgwyd* | *Diweddariad 30 Awst 2024* |
|---|---|---|---|---|
| | | | | *Cynorthwyol, a bydd Adolygiad o'r Gwasanaeth hefyd yn amlygu meysydd lle mae gwasanaethau a chanddynt ormod neu ddiffyg adnoddau, gan sicrhau'r buddsoddiad mewn adnoddau mwyaf priodol yn y meysydd cywir* |
| *4* | *Cynaliadwyedd Ariannol/Cynhyrchu Incwm* | *Amrywiad yn y parodrwydd i dderbyn risg ar draws Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru* | *Gweithredu dulliau ar gyfer cyfathrebu a chydweithredu tryloyw er mwyn cysoni strategaethau rheoli risg ag anghenion a blaenoriaethau gwahanol wasanaethau yn Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru.* | *Cyflwynir cyfathrebu tryloyw drwy sawl cyfrwng, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) Sioeau Teithiol y Prif Swyddog Gweithredol, ymgysylltu â Phartneriaid Undebau Llafur ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn Fyw.* |
| *5* | *Cynaliadwyedd Ariannol/Cynhyrchu Incwm* | *Risg o Niwed i Enw Da* | *Blaenoriaethu tryloywder, atebolrwydd ac ymddygiad moesegol mewn prosesau gwneud penderfyniadau ariannol er mwyn diogelu enw da Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru a chynnal ymddiriedaeth y cyhoedd.* | *Yn ogystal â'r sianeli cyfathrebu a restrir uchod, gan ei bod yn gorff cyhoeddus, mae Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn sicrhau tryloywder llawn ar draws yr holl benderfyniadau ariannol a wneir yn fewnol ac yn allanol. Er enghraifft, mae rhanddeiliaid ar draws yr Ymddiriedolaeth* |

| *Gwers Rhif* | *Maes* | *Crynodeb o'r Profiad* | *Y Wers a Ddysgwyd* | *Diweddariad 30 Awst 2024* |
|---|---|---|---|---|
| | | | | *yn chwarae rhan yn y broses o wneud penderfyniadau ariannol ar sail Trawsnewid.* |
| *6* | *Cynaliadwyedd Ariannol/Cynhyrchu Incwm* | *Parodrwydd i dderbyn risg o'i gymharu â chapasiti risg* | *Cynnal asesiadau amlygiad i risg a galluoedd adnoddau yn rheolaidd i sicrhau bod strategaethau'n cael eu cysoni'n realistig er mwyn lleihau a lliniaru risg.* | *Mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnal asesiadau amlygiad i risg trylwyr rheolaidd o'i gymharu â galluoedd adnoddau. Yn ogystal â hyn, mae adroddiadau a gomisiynwyd yn ddiweddar wedi amlinellu meysydd allweddol y mae angen adnoddau ychwanegol ynddynt i liniaru'r risg o fethu â chyflawni. O ran cynhyrchu incwm, bydd y Pennaeth Masnachol sy'n dod i mewn yn gyfrifol am gynnal a rheoli asesiadau risg cadarn ar lefel cynlluniau unigol.* |
| *7* | *Cynaliadwyedd Ariannol/Cynhyrchu Incwm* | *Diffyg capasiti ac amser i fynd ar drywydd hyn* | *Symleiddio prosesau, dirprwyo cyfrifoldebau, a darparu cefnogaeth ddigonol i leddfu pwysau gwaith a chreu lle i gynllunio a gweithredu.* | *Mae Cynllun Gweithredu dan arweiniad y Tîm Arweinyddiaeth Cyfarwyddwyr Cynorthwyol yn datblygu prosesau symleiddio, fodd bynnag, dylai sefydlu Strwythur Masnachol ganiatáu i arbenigwyr penodol ganolbwyntio ar* |

| *Gwers Rhif* | *Maes* | *Crynodeb o'r Profiad* | *Y Wers a Ddysgwyd* | *Diweddariad 30 Awst 2024* |
|---|---|---|---|---|
| | | | | *ddatblygu buddiannau masnachol yr Ymddiriedolaeth.* |
| *8* | *Cynaliadwyedd Ariannol/Cynhyrchu Incwm* | *Datgysylltiad (weithiau, nid yw'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol yn ymwybodol o gynlluniau a drafodir ar lefel y gyfarwyddiaeth)* | *Gwella sianeli cyfathrebu ar gyfer platfformau sy'n rhannu gwybodaeth, sicrhau bod rhanddeiliaid perthnasol yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf ac yn ymgysylltu mewn trafodaethau.* | *Fel y nodir uchod, gwell cysondeb â strwythurau presennol megis WiiN.* |
| *9* | *Cynaliadwyedd Ariannol/Cynhyrchu Incwm* | *Diffyg craffter ariannol* | *Buddsoddi mewn hyfforddiant a datblygiad sydd wedi ei dargedu er mwyn meithrin sgiliau llythrennedd a chymhwysedd ymhlith y staff ar bob lefel, gan eu grymuso i wneud penderfyniadau gwybodus ac i gyfrannu'n effeithiol at gynaliadwyedd ariannol.* | *Fel y nodir yng Ngwers 3* |
| *10* | *Cynaliadwyedd Ariannol/Cynhyrchu Incwm* | *Diffyg arbenigedd masnachol* | *Recriwtio neu ddatblygu talent sydd ag arbenigedd arbenigol a manteisio ar bartneriaethau allanol i gael cymorth ychwanegol er mwyn gwneud y gorau o strategaethau rheoli refeniw a chostau.* | *Fel y nodir yng Ngwers 3* |

| *Gwers Rhif* | *Maes* | *Crynodeb o’r Profiad* | *Y Wers a Ddysgwyd* | *Diweddariad 30 Awst 2024* |
|---|---|---|---|---|
| *11* | *Cynaliadwyedd Ariannol/Cynhyrchu Incwm* | *Mae diffyg strwythurau i gyflawni incwm gwirioneddol* | *Nodi cyfleoedd y tu hwnt i ffynonellau ariannu traddodiadol, cydnabod a mynd i’r afael â bylchau a chyfyngiadau yn y model busnes presennol, buddsoddi mewn datblygu strwythurau a phrosesau i gefnogi mentrau cynhyrchu incwm. Sicrhau cysondeb â chenhadaeth, gwerthoedd ac amcanion strategol Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru.*<br>*Datblygu fframweithiau cadarn.* | *Fel y nodir yng Ngwers 3* |

Ffynhonnell: Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

1 Cwr y Ddinas

Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: https://www.audit.wales/cy

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.